ESGOB LLANELWY
THE BISHOP OF ST ASAPH

# I'w ddefnyddio ar ddydd Sul Adfent y Cyntaf 2025

Annwyl Gyfeillion

**Neges Fugeiliol yr Adfent oddi wrth Esgob Llanelwy**

Pan oeddwn i'n tyfu i fyny, roedd fy rhieni wrth eu bodd â cherddoriaeth bop. Roedden nhw'n hoffi'r "*crooners*" yn arbennig – yn canu baledi gwych. Dyma un o'r caneuon rwy'n ei gofio o fy mhlentyndod:

> *"What the World needs now is love, sweet love,*
> *Not just for some but for everyone ... "*

Ar hyn o bryd yn yr esgobaeth, rydym yn canolbwyntio ar drydedd ran ein harwyddair, sef ein bod wedi'n galw i fod yn bobl sy'n dangos cariad. Mae'n ddywediad hyfryd, achos mae'n golygu mwy na theimlo cariad neu fod yn gariadus. Mae'n golygu rhoi cariad ar waith.
Ar ôl y gynhadledd esgobaethol ym mis Hydref, gofynnwyd i sawl un beth maen nhw'n ei wneud yn eu heglwysi i ddangos cariad a dyma rai o'r atebion (gwelir fideo o bytiau ar lafar)

Mae cân arall sy'n cael ei chanu fel emyn. Ysgrifennwyd hon gan Gristion o'r ail ganrif ar bymtheg:

> *"My Song is Love Unknown.*
> *My song is love unknown –*
> *my Saviour's love to me;*
> *Love to the loveless shown,*
> *That they might lovely be."*

Fel Cristnogion rydym yn dangos cariad, nid yn unig allan o ewyllys da neu er mwyn bod yn gymdeithasol ond gan ein bod yn credu bod Duw yn ein caru ni ac felly bod pawb yn haeddu cael eu caru. I aralleirio'r uchod: *Dangos cariad at bobl ddi-gariad; fel y gallan nhw fod yn llawn cariad.*

Yn y pen draw, gwelir gwir werth eglwys yn ei gallu i drawsnewid bywydau. '*Love to the loveless shown, that they might lovely be.* A hoffwn annog pawb ohonom, yn y flwyddyn hon o ddangos cariad, i fod yn eglwysi sy'n gwthio'r ffiniau. Efallai ein bod eisoes yn dda iawn am groesawu pobl; efallai ein bod yn tueddu i orffwys ar ein rhwyfau. Ond eleni,

ESGOBTY, LLANELWY ST ASAPH, LL17 0TW
EMAIL: bishop.stasaph@cinw.org.uk : TEL: 01745 583503

dewch i ni sicrhau bod pob un o eglwysi'r esgobaeth yn nodedig am ansawdd y cariad maen nhw'n ei ddangos at eraill. Pa ffordd well o ddathlu neges y Nadolig fod Duw wedi caru'r byd gymaint nes iddo roi ei unig fab inni?

Yng Nghrist



ESGOBTY, LLANELWY ST ASAPH, LL17 0TW
EMAIL: bishop.stasaph@cinw.org.uk : TEL: 01745 583503